# Monitro ac adolygu cyfleusterau cyllid a chredyd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i adolygu ac ailarfarnu cyfleusterau cyllid neu gredyd awdurdodedig, ynghyd â sut rydych chi'n rheoli sefyllfaoedd lle mae eich cwsmer wedi manteisio ar gyfleusterau heb eu hawdurdodi. Bydd angen i chi roi sylw i fanylion sy'n hanfodol i'ch gwaith. Mae hyn yn ymwneud ag amserlenni a systemau adolygu rheolaidd neu gytunedig, yn hytrach nag ymateb adweithiol i sefyllfa lle mae ôl-ddyledion wedi digwydd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos sefyllfaoedd sy'n ymwneud â chyfleusterau cyllid neu gredyd ar gyfer busnes, lle mae ffactorau allanol fel yr amgylchedd busnes, yn ogystal â'u gweithredoedd eu hunain, yn effeithio ar allu'r cwsmer i gadw at yr ad-daliadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Nodi cyfleusterau cyllid neu gredyd y mae'n briodol eu hadolygu, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol i gynnal adolygiadau, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Dadansoddi'r gweithgaredd ar gyfrifon gan nodi unrhyw dueddiadau a phatrymau yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Ymchwilio i unrhyw ddangosyddion tueddiadau neu amrywiadau negyddol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Nodi amrywiadau y mae angen gweithredu yn eu cylch, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Nodi achosion amrywiadau mewn cyfrifon yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
7. Cwblhau ailwerthusiad o unrhyw sicrwydd a ddelir yn erbyn cyfleuster cyllid neu gredyd lle bo hynny'n briodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Ceisio camau gan gwsmeriaid i ddatrys unrhyw broblemau gyda'u cyfrifon, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Cyfeirio materion y tu allan i'ch awdurdod eich hun at yr awdurdod priodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. Nodi risgiau posibl yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
11. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, gan gynnwys safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y cyfleusterau cyllid neu gredyd a gynigir gan eich sefydliad, a'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol iddyn nhw
2. Deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol sy'n effeithio ar eich gwaith
3. Polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer monitro ac adolygu cyfrifon
4. Ffactorau allanol a allai effeithio ar allu cwsmeriaid i gadw at y telerau a'r amodau y cytunwyd arnynt
5. Terfynau eich awdurdod eich hun wrth fonitro ac adolygu cyfleusterau cyllid neu gredyd, ac at bwy y dylech chi gyfeirio unrhyw gyfrifon sydd y tu allan i'ch awdurdod
6. Sut mae adnabod arwyddion perygl o ran dyledion posibl a methiant i gadw at daliadau cytunedig
7. Mathau, achosion ac arwyddocâd amrywiadau a thueddiadau mewn cyfrifon
8. Sut mae dadansoddi gwybodaeth am gyfrifon, gan gynnwys arwyddion sy'n rhybuddio am ddyledion posibl
9. Sut mae ymchwilio i amrywiadau neu dueddiadau negyddol, a sylweddoli pan fydd angen cymryd camau pellach
10. Strategaethau ar gyfer delio gyda phroblemau oddi mewn i gyfrifon
11. Goblygiadau cau cyfrifon
12. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn adnabod ac yn delio gyda newid mewn amgylchiadau yn brydlon
2. Rydych yn arddangos uniondeb, tegwch a chysondeb yn y penderfyniadau a wnewch

Monitro ac adolygu cyfleusterau cyllid a chredyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPFC06 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Cyllid a Chredyd |
| **Geiriau Allweddol** | Benthyca; rhoi benthyg; penderfyniad benthyca; gostyngiad; cais am forgais; mandad; sicrwydd; hawl; mantolenni; telerau ac amodau; benthyciad; gorddrafft; wedi'i sicrhau; heb ei sicrhau; ôl-ddyledion; credyd |